

Rhif yr Eitem ar yr Agenda:

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) a gynhaliwyd ddydd Iau, 27 Ionawr 2022 fel Cyfarfod Rhithwir ac a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams.

Aelodau'n bresennol:

Emrys Elias	Cadeirydd
Greg Dix	Prif Weithredwr Dros Dro
Jayne Sadgrove	Is-gadeirydd/Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Carolyn Donoghue	Aelod Annibynnol
Lynda Thomas	Aelod Annibynnol
Geraint Hopkins	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd (Yn rhannol)
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Dom Hurford	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro (Yn rhannol)
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros dro)
Lisa Curtis-Jones	Aelod Cyswllt
Anna Lewis	Aelod Cyswllt – Cadeirydd y Grŵp Cyngori Clinigol (Yn rhannol)

Yn bresennol:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Stuart Morris	Cyfarwyddwr Digidol
Lauren Edwards	Dirprwy Gyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebiadau
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Rebecca Goode	Rheolwr Busnes Gweithredol
Claire John	Prif Nyrs, Ward 6 Gofal Lliniarol (Yn rhannol)
Mark Jones	Archwilio Cymru (Yn rhannol)
Steve Stark	Archwilio Cymru (Yn rhannol)
Dave Thomas	Archwilio Cymru (Yn rhannol)
Owen James	Pennaeth Cyllid Corfforaethol (Yn rhannol)
Sallie Davies	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol
Paul Dalton	Archwilio Mewnol
Cathy Moss	Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg (Yn rhannol)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem ar yr Agenda

1

MATERION RHAGARWEINIOL

1.1

Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai oedd yn arsylwi a chyd-weithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nododd** y Cadeirydd hefyd fformat y trafodion ar ei ffurf rithwir.

Dyweddodd y Cadeirydd y byddai, ar ddiwedd y cyfarfod heddiw, yn ceisio myfyrdodau gan y Bwrdd o ran eu teimladau ynghylch sut yr aeth y cyfarfod, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

1.2

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Paul Mears, Prif Weithredwr

1.3

Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ychwanegol.

1.4

Gwrando a Dysgu ar y Cyd – Straeon Staff a Chleifion, Heriau a Chyfleoedd Covid

Cyflwynodd C John stori claf gan ddisgrifio'r gofal a roddwyd fel rhan o ofal diwedd oes.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i C John am gyflwyno'r stori ac am rannu pa mor bersonol fu'r ymateb gan y staff. Ychwanegodd hefyd ei bod yn amlwg cymaint yr oedd y claf wedi gwerthfawrogi popeth a wnaed ar eu cyfer.

Estynnodd J Sadgrove ei ddiolch hefyd i C John am rannu'r stori a ddangosodd sut yr oedd y tîm wedi rhoi gofal cyfannol sy'n hanfodol bwysig i gleifion, yn enwedig ar gyfer gofal diwedd oes.

Croesawodd L Thomas y stori a oedd yn ysbrydoledig ac roedd hefyd yn cydnabod y gwaith a wnaed gan C John a'r tîm. Mewn ymateb i gwestiwn gan L Thomas ynghylch sut y llwyddodd y Tîm i ddod o hyd i'r amser i gyflawni hyn, dywedodd C John nad oedd terfynau penodol o ran sawl gwaith y gellid cynnig y Daith Ddymuniadau i gleifion a gynigiwyd drwy'r Gwasanaeth Ambiwylans. Ychwanegodd hefyd fod Staff yr Ambiwylans wedi cynnig y gwasanaeth hwn yn eu hamser eu hunain, gyda nifer o wasanaethau'n ymuno â'i gilydd i gyflawni'r canlyniad a ddymunir i'r claf yn ôl yr angen.

Estynnodd D Hurford ei ddiolch i C John a'r Tîm cyfan am y gofal anhygoel yr oeddent wedi'i roi i gleifion.

Diolchodd F Jenkins i C John am rannu'r stori a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o gleifion yn dewis ymadael â'r byd hwn mewn lle o'u dewis. Ychwanegodd fod unrhyw beth y gallai'r Bwrdd Iechyd ei gynnig i gleifion yn ystod dyddiau olaf eu bywyd yn aruthrol. Mewn ymateb i gwestiwn gan F Jenkins ynghylch a fyddai capasiti ar waith i ymestyn y mathau hyn o wasanaethau, dywedodd C John y byddai'n croesawu ymestyn y gwasanaeth ac ychwanegodd fod y cyffyrddiadau personol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad y claf.

Dywedodd G Dix fod y gofal a roddir yn yr Uned Gofal Lliniarol yn Ysbyty Cwm Cynon yn wych, ond roedd adegau pan nad oedd profiad y claf bob amser yn gadarnhaol mewn lleoliadau eraill yn y Bwrdd Iechyd. Ychwanegodd fod angen gwell cymorth ar gleifion a oedd yn treulio eu dyddiau olaf mewn lleoliadau Aciwt.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i C John am rannu'r stori am y daith ddymuniadau a'r effaith gadarnhaol a gafodd hyn ar ofal diwedd oes y claf. Roedd hyn, meddai, wedi galluogi'r Bwrdd i ystyried sut y gellid gwella gofal diwedd oes ar draws pob lleoliad, yn enwedig y lleoliad Gofal Aciwt.

Penderfyniad: **NODWYD** Stori'r Claf.

2 AGENDA CANIATÂD

3.1 I'W CHYMERADWYO

3.1.1 Cofnodion nas cadarnhawyd o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion

3.1.2 Cofnodion nas Cadarnhawyd o Gyfarfod y Pwyllgor Mewnol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** cofnodion y Pwyllgor Mewnol fel cofnod gwir a chywir.

3.1.3 Adroddiad y Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin – i gynnwys Cadarnhau Camau Brys y Cadeirydd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad;

CYMERADWYWYD Gosod y Sêl Gyffredin.

CADARNHAWYD Camau Brys y Cadeirydd a oedd yn ymwneud â dod â chyfarfodydd busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor, nad ydynt yn hanfodol, a drefnwyd ar gyfer Ionawr a Chwefror 2022, i ben.

3.1.4 Diwygiadau i'r cynllun Dirprwyo

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.5 Diwygiadau i'r rheolau sefydlog – Cylch gorchwyl pwyllgorau'r Bwrdd

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.6 Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd.

3.2 I'W NODI

3.2.1 Cofnod Gweithredu

Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnod Gweithredu.

3.2.2 Adroddiad y Prif Weithredwyr

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau Amlygu.

3.2.3 Adroddiadau Pigion y Pwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** Adroddiadau Amlygu'r Pwyllgor.

3.2.4 Adroddiadau'r Cydbwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3.2.5 Blaenraglen Waith y Bwrdd

Penderfyniad: **NODWYD** Blaenraglen Waith y Bwrdd.

4. PRIF AGENDA

4.1 Materion yn Codi nas ystyriwyd yn y Cofnod Gweithredu

Ni nodwyd unrhyw faterion pellach.

5. LLYWODRAETHU

5.1 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cronfeydd Elusenol

Cyflwynodd O James yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan P Roseblade ynghylch y swm bach o adennill treth ar Gift Aid ac a oedd proses ar waith i annog rhoddwyr i gynnwys Rhodd Cymorth, dywedodd O James y byddai'n hapus i ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn penderfynu a ellid cynyddu nifer y rhoddion Rhodd Cymorth.

Dywedodd J Sadgrove ei bod yn falch o weld bod y gronfa'n cael ei rheoli'n dda mewn perthynas ag incwm. Ychwanegodd hefyd, er ei bod yn cydnabod bod hon wedi bod yn flwyddyn anghyffredin, fod angen canolbwyntio ar sut y defnyddir yr arian i gyflawni amcanion yr elusen. Nododd hefyd fod angen sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth er budd cleifion a staff. Dywedodd O James fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid ynglŷn â'r mater hwn ac ychwanegodd y cytunwyd yn y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol diwethaf y byddai strategaeth glir yn cael ei datblygu ynghylch sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio. Nododd yr Aelodau y byddai trafodaethau'n parhau i gael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn y dyfodol.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon.

Gweithred: Cynhelir adolygiad i benderfynu a ellid cynyddu nifer y Rhoddion Rhodd Cymorth mewn perthynas â rhoddion a wneir i'r Gronfa Elusennol.

Adroddiad Archwiliad Cyfrifon Archwilio Cymru

5.1.1

Cyflwynodd M Jones adroddiad a dywedodd fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod heb unrhyw argymhellion wedi'u gwneud. Estynnodd M Jones ei ddiolch i O James a'r Tîm Cyllid am y cymorth a roddwyd drwy gydol y flwyddyn.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.2

Cofrestr Risg Sefydliadol

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad a drafodwyd yn y Pwyllgor nad oedd wedi'i ddileu o ganlyniad i'r cynnydd mewn achosion o'r amrywiant Omicron. Nododd yr Aelodau fod yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg wedi'i gynnal gan y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol lle trafodwyd y materion canlynol:

- Risg 4071 – adolygwyd y risg hon a chytunwyd y byddai'r sgôr risg yn parhau i fod yn 20;
- Amseroedd Aros Patholeg – Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredu i adolygu hyn fel risg benodol;
- Cydnabuwyd bod nifer o ddyddiadau adolygu wedi mynd heibio a oedd bellach yn cael eu trin fel maes blaenoriaeth uchel gan Arweinwyr Gweithredol;
- Cydnabuwyd bod nifer o risgiau'n dibynnu ar ddatblygu achosion busnes nad oeddent yn cael eu lliniaru'n briodol. Byddai adolygiad o'r risgiau hyn bellach yn cael ei gynnal.

Nododd yr Aelodau fod y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Risg Cynorthwyol yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl mewn perthynas â Risg 4106 er mwyn sicrhau bod camau lliniaru ar waith, yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar 18 Ionawr 2022.

Nododd yr Aelodau fod gwaith yn parhau i gael ei wneud gyda'r Good Governance Institute mewn perthynas â diwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Byddai'r drafft cyntaf yn cael ei drafod yn Sesiwn Datblygu nesaf y Bwrdd.

Cyfeiriodd P Roseblade at y risg newydd, 4888, a oedd yn ymwneud â diffyg adnoddau o fewn Tîm y Gymraeg a cheisiodd eglurder ynghylch a oedd angen cyfuno'r risg hon â Risg 4110, methu â chydymffurfio'n llawn â holl ofynion Safonau'r Gymraeg fel rhai nad oedd modd cydymffurfio â'r safonau o ganlyniad i beidio â chael digon o adnoddau. Ychwanegodd P Roseblad nad oedd y gofrestr risg yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bwrdd wedi cytuno i liniaru'r risg hon gymaint â phosibl o ystyried bod yna feysydd blaenoriaeth eraill. Awgrymodd y byddai angen cofnodi hyn yn rhywle. Dywedodd G Galletly fod y pwynt a godwyd ynglŷn â goddefgarwch risg yn ddilys ac ychwanegodd y byddai rhai meysydd lle byddai'n rhaid i'r Bwrdd dderbyn mewn perthynas goddefgarwch risg.

Dywedodd H Daniel, mewn perthynas â'r awgrym a wnaed i gyfuno'r risgiau, fod y rhan fwyaf o Safonau'r Gymraeg y tu allan i Dîm y Gymraeg, ac ychwanegodd fod y materion adnoddau o fewn Tîm y Gymraeg yn ymwneud ag adnoddau cyfieithu.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan P Roseblade ynghylch a oedd yn briodol lleihau'r sgôr risg ar gyfer Risgiau 4784 a Risg 4747 o ystyried nad oedd unrhyw atebion parhaol ar waith ar hyn o bryd, dywedodd H Hurford fod y gwasanaeth o safbwynt rhai Newydd-anedig, mewn perygl llawer is o ystyried bod y sefyllfa recriwtio yn ymddangos fel pe bai'n gwella.

Estynnodd J Sadgrove ei diolch i G Galletly am nodi'r sefyllfa bresennol ac ychwanegodd, er ei bod yn deall bod y broses o asesu risg yn newid yn gyson, fod angen i'r Bwrdd fod yn edrych ar y sefyllfa fwyaf cyfredol, yn enwedig meysydd lle'r oedd y sgôr risg wedi cynyddu. Cadarnhaodd G Galletly nad oedd unrhyw risg wedi gweld cynnydd yn eu sgôr yn ystod y cyfnod hwn, gyda rhai risgiau'n gostwng o ran sgôr, a oedd yn gadarnhaol.

Cyfeiriodd I Wells at nifer o risgiau a oedd wedi denu sylw cenedlaethol ac nad oeddynt wedi'u diweddarau ers mis Gorffennaf/Awst. Roedd y rhain yn cynnwys Risgiau 4253, 4688, 3563 a 4149. Cyfeiriodd I Wells hefyd at risgiau a ddyrannwyd i Bwyllgorau a oedd wedi'u diddymu o ganlyniad i amrywiolyn Omicron. Roedd y rhain cynnwys Risg 4672 a Risg 4693. Gofynnodd I Wells i ddiweddariad gael ei roi yn erbyn y risgiau hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Rhoddodd J Sadgrove sicrwydd, mewn perthynas â'r risgiau a ddyrannwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, bod y gwaith craffu'n cael ei wneud ar y risgiau hyn yn y Pwyllgor a dywedodd am yr angen i sicrhau bod y gofrestr risg a gyflwynir yn y fersiwn ddiweddaraf bosibl er mwyn galluogi trafodaethau.

Gwnaeth F Jenkins sylwadau ar Risgiau 4798 a 4500 a oedd yn ymwneud â staffio. Nododd yr Aelodau, er nad oedd y gofrestr risg wedi'i diweddarau ers mis Tachwedd ynglŷn â'r risgiau hyn, fod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod lefelau staffio'n cael eu cynnal.

Mewn perthynas ag ymholiad gan J Hehir mewn perthynas â Risgiau 4888 a 4110 a oedd yn ymddangos fel pe bai'r ddau'n gwrthdaro â'i gilydd, dywedodd H Daniel, fel y nodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, er fod y ddau risg yn gysylltiedig, nad oeddent yn hollol arferol. Nododd yr Aelodau nad oedd Tîm y Gymraeg yn gwbl gyfrifol am yrru Safonau'r Gymraeg yn eu blaen. Dywedodd H Daniel y byddai'n cynnal adolygiad pellach o'r ddau risg er mwyn penderfynu a oeddent wedi cael eu disgrifio'n briodol.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i G Galletly am gyflwyno'r adroddiad a dywedodd fod nifer o heriau i'w hystyried yn dilyn trafodaethau heddiw. Nododd y Cadeirydd hefyd fod angen rhywfaint o gydberthynas rhwng y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Gofrestr Risg cyn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol.

NODWYD yr adroddiad.

Penderfyniad: Dylid cynnal adolygiad o'r holl sylwadau a wnaed mewn perthynas â nifer y risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg, gydag ymateb i'w roi y tu allan i'r cyfarfod.

Hunanasesu Ymyriadau wedi'u Targedu

5.3

Cyflwynodd R Goode yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu ac yn ceisio cymeradwyo lefel yr ymyrraeth a dargedwyd a dilyniant Mesurau Arbennig fel yr amlinellwyd ac a gymeradwywyd yn y sesiwn Hunanasesu ar 20 Rhagfyr 2021.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i R Goode am gyflwyno'r adroddiad.

CYMERADWYWYD yr adroddiad.

Adroddiad Archwilio Blynnyddol gan Archwilio Cymru

Penderfyniad:

5.4

Cyflwynodd D Thomas yr adroddiad ac estynnodd ei ddiolch i staff y Bwrdd Iechyd am y cymorth yr oeddent wedi'i roi a'r ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

NODWYD yr adroddiad.

Penderfyniad:

6

CREU IECHYD

6.1 **BIP CTM fel Sefydliad Iechyd y Boblogaeth: Cynnydd yn erbyn Nodau Iechyd y Boblogaeth**

Cyflwynodd J Nnoaham yr adroddiad a rhoddodd hefyd ddiweddariad mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol o ran Covid-19.

Estynnodd F Jenkins ei ddiolch i K Nnoaham am y diweddariad ac i'r holl staff am y gwaith a wnaed ganddynt wrth ymateb i'r pandemig. Dywedodd F Jenkins ei bod yn amlwg bod angen gwneud gwaith sylweddol ar iechyd y boblogaeth o fewn poblogaeth y Bwrdd Iechyd. Dywedodd F Jenkins fod yna nifer fawr o gleifion yn gwella o Covid-19, a chododd ymwybyddiaeth o'r ffaith bod gan y Bwrdd Iechyd Gwasanaeth Adfer ar ôl Covid-19 ar waith a gafodd ei werthuso'n ddiweddar. Roedd disgwyl i'r gwerthusiad gael ei gyflwyno i'r Gweinidog Iechyd y mis hwn.

Nododd yr Aelodau mai'r Bwrdd Iechyd oedd â'r nifer fwyaf o gleifion a oedd yn gwella o Covid-19 o'i gymharu â gweddill Cymru. Nododd yr Aelodau fod disgwyl i'r Gweinidog wneud cyhoeddiad ddechrau mis Chwefror ynghylch Gwasanaethau Covid Hir wrth symud i'r flwyddyn newydd.

Ategodd K Nnoaham y diolch a fynegwyd gan F Jenkins i staff am y gwaith a wnaed ganddynt wrth ymateb i'r pandemig. Ychwanegodd K Nnoaham fod llawer o'r ffactorau a arweiniodd at y lefelau uchaf o Covid-19 i CTM o ganlyniad i'r problemau amddifadedd a oedd eisoes yn bodoli yng nghymunedau'r Bwrdd Iechyd. Nododd yr Aelodau fod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol mewn perthynas ag Anghydraddoldebau Iechyd a nododd fod disgwyliad y byddai lefelau'r cyflyrau tymor hir, er enghraifft Diabetes, yn cynyddu.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i K Nnoaham am gyflwyno'r adroddiad ac am y gwaith a wnaed ganddo i reoli ymateb y Bwrdd Iechyd i bandemig Covid-19.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7. **GWELLA IECHYD**

7.1 **Adroddiad Amlygu'r Grŵp Cyngori Clinigol**

Cyflwynodd A Lewis yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2021. Nododd yr Aelodau fod trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas â amgylchedd Digidol a oedd yn cynnwys yr heriau a wynebier o ran y Seilwaith Digidol a TG a'r datgysylltiad â systemau TGCh Pen-y-bont ar Ogwr.

Nododd yr Aelodau fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro mewn perthynas â rôl y Grŵp Cyngori Clinigol ac a oedd yn cyflawni

disgwyliadau'r Bwrdd. Nododd yr Aelodau y byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddarau ynglŷn â'r trafodaethau.

Diolchodd S Morris i A Lewis am ei wahodd i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr. Rhoddodd S Morris sicrwydd bod cyfarfod cadarnhaol wedi'i gynnal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid ar gyfer elfennau System Gweinyddu Cleifion systemau TGCh Pen-y-bont ar Ogwr a'r gobaith oedd y byddai arian yn dod i law o 1 Ebrill 2022. Ychwanegodd S Morris fod ymgysylltu sylweddol wedi'i wneud ar ôl mynychu'r Grŵp Cyngori Clinigol gyda nifer o gydweithwyr clinigol yn ymgysylltu ymhellach â staff clinigol dros yr wythnosau nesaf. Nododd yr Aelodau fod y materion yn ymwneud ag ymatebolrwydd wrthi'n cael sylw.

Croesawodd I Wells y canolbwyntio ar y materion a brofwyd a'r hyfforddiant mewn perthynas â systemau digidol. Mewn ymateb i gwestiwn gan I Wells ynghylch beth oedd y goblygiadau posibl mewn perthynas â'r Arddweud Digidol, dywedodd S Morris fod yna garfan beilot fach o staff meddygol a oedd yn defnyddio Arddweud Digidol ar hyn o bryd. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai cyflwyno Arddweud Digidol yn rhyddhau amser Ysgrifenyddion Meddygol i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Glinigwyr.

Cyfeiriodd D Hurford at rôl y Grŵp Cyngori Clinigol yn gyffredinol, a dywedodd y byddai angen i'r grŵp esblygu wrth symud ymlaen i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben yn effeithiol o safbwynt y Bwrdd.

Estynnodd J Sadgrove ei diolch i A Lewis am gyflwyno'r adroddiad a thynnodd sylw at oblygiadau ansawdd a diogelwch peidio â chael systemau digidol da ar waith, er enghraifft, yr angen i sefydlu system e-ragnodi gadarn a'r angen i atgyfnerthu cofnodion cleifion ar draws Cwm Taf Morgannwg i gyfyngu ar nifer y cofnodion dyblyg. Mynegodd J Sadgrove bwysigrwydd datrys y materion hyn, o safbwynt y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac ychwanegodd ei bod yn falch bod Clinigwyr wedi codi'r materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr Digidol i'w symud ymlaen.

Dywedodd G Dix fod pryder wedi'i godi yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd mewn perthynas â'r diffyg cynrychiolaeth Nyrsio yn y Grŵp Cyngori Clinigol a gofynnodd am eglurder ynghylch a oedd hyn bellach wedi'i ddatrys. Dywedodd A Lewis, er bod rhai cyd-weithwyr nyrsio ychwanegol wedi ymuno â'r grŵp, ei bod yn dal i deimlo nad oedd y grŵp staff hwn yn cael ei gynrychioli'n ddigonol. Dywedodd G Dix y byddai'n hapus i drafod hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

Penderfyniad: Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i A Lewis am gyflwyno'r adroddiad.

7.2 NODWYD y cyfarfod.

Adroddiad Ansawdd

Cyflwynodd G Dix, D Hurford a G Galletly yr adroddiad ar y cyd gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol a gynhwyswyd ynddo.

Mewn ymateb i ymholiad gan I Wells mewn perthynas â niwed briwiau pwyso a'r datganiad a wnaed ar dudalen 7 yr adroddiad a oedd yn awgrymu nad oedd modd osgoi 86% o ddigwyddiadau niwed briwiau pwyso, dywedodd G Dix nad oedd pob briw pwyso yn rhai na ellir eu hosgoi a dywedodd, pan gynhelir paneli craffu ar niwed briwiau pwyso, bod cleifion yn cael eu hadolygu o safbwynt cyfannol, er enghraifft os oes gan gleifion afiechyd difrifol, neu os yw cleifion yn methu â chydymffurfio â chynghor a awgrymwyd ar gyfer lleddfu pwysau a chleifion ar ddiwedd eu hoes. Nododd yr Aelodau fod cynghor arbenigol yn cael ei ddarparu gan y Nyrs Arweiniol Hyfywedd Meinwe mewn perthynas â digwyddiadau niwed briwiau pwyso.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch a ellid nodi unrhyw themâu ynghylch cwmpïadau cleifion, dywedodd G Dix fod themâu'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chwmpïadau cleifion yn y nos a bod cleifion yn gwisgo esgidiau annigonol. Nododd yr Aelodau y bu cynnydd yn nifer y cwmpïadau ar draws wardiau'r Henoed Eiddil eu Meddwl a oedd yn gysylltiedig yn bennaf â heriau staffio a bod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Ychwanegodd G Dix fod rhywfaint o dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg yn dechrau cael ei gweld ynglŷn â chynnydd mewn cwmpïadau ymhlith cleifion mewnol a oedd yn aros am ofal a fyddai'n cael ei drafod ymhellach fel rhan o'r gwaith Craffu ar Gwmpïadau sy'n cael ei wneud.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch a yw'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei flaenoriaethiad asesiad risg ei hun o'r cleifion sy'n aros am driniaeth neu dderbyniad, dywedodd D Hurford ei bod yn anodd iawn mesur hyn ar gyfer pob cyflwr ac ychwanegodd fod pob achos yn wahanol ac yn amrywiol ar draws arbenigeddau. Nododd yr Aelodau fod yr holl gleifion yn cael eu hasesu ar draws y Bwrdd Iechyd a nododd fod angen gwneud hyn mewn modd sensitif ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r cyflyrau unigol.

Rhoddodd J Sadgrove sicrwydd i'r Aelodau fod yr holl faterion a gynhwysir yn yr adroddiad wedi'u trafod a'u harchwilio'n fanwl yn y Pwyllgor Ansawdd a Penderfyniad: Diogelwch ac ychwanegodd ei bod yn croesawu cyflwyno'r dangosfwrdd cryno.

NODWYD yr adroddiad.

7.3

Rhaglen Wella Mamolaeth a Newydd-anedig

Cydgylwynodd G Dix a S Davies yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol sydd ynddo.

Cydnabu P Roseblade y gwelliant sylweddol a wnaed mewn perthynas â fformat a chynnwys diwygiedig yr adroddiad a oedd, yn ei barn hi, yn ddefnyddiol iawn.

Croesawodd C Donoghue fformat diwygiedig yr adroddiad hefyd a chyfeiriodd at y datganiad a wnaed ynddo y byddai arweinyddiaeth y rhaglen yn trosglwyddo i Strwythur y Grwpiau Ardal Integredig yn y dyfodol ac yn gofyn am eglurder ynghylch sut y gallai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal pan fyddai'r newid hwn wedi'i gwblhau. Dywedodd G Dix fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â hyn ar ddechrau'r rhaglen ac ychwanegodd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Morecambe Bay mewn perthynas â'u dysgu. Ychwanegodd G Dix fod y gofynion o ran adnoddau ar gyfer 2022/2023 wedi'u datblygu'n ddiweddar a bod model wrth gefn camu o'r neilltu/camu'n ôl yn cael ei lunio ar hyn o bryd.

Atgoffodd J Sadgrove yr aelodau o'r gadwyn sicrwydd a oedd ar waith mewn perthynas â Rhaglen Wella Mamolaeth a Newydd-anedig a dywedodd fod sicrwydd wedi'i roi ar bob eitem ond un, a oedd yn ymwneud â'r ateb a roddwyd ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl am eu bod wedi colli beichiogrwydd, ac nad oedd gwely bob amser ar gael o ganlyniad i bwysau eraill yn yr ysbyty. Dywedodd J Sadgrove ei bod yn teimlo bod angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r mater hwn o gofio bod hyn wedi'i nodi fel maes sy'n peri pryder gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nododd yr Aelodau fod gwaith yn cael ei wneud i nodi ateb mwy parhaol ar gyfer llety a nododd y byddai adroddiad diweddar manwl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Dywedodd N Milligan ei bod yn falch o weld gwelliant yn nifer y staff a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol ac awgrymodd fod angen diwygio'r graff ar dudalen 8 yr adroddiad i adlewyrchu canran y mathau o staff a oedd yn bresennol.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i G Dix a S Davies am gyflwyno'r adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau roi adborth i S Davies ynghylch a oedd unrhyw feysydd ychwanegol yr oedd angen eu cynnwys yn y metrigau yn yr adroddiad. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn falch o glywed am y penodiad a wnaed i swydd Pennaeth Bydwreigiaeth ac estynnodd ei ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Adroddiad manwl ar yr opsiynau ar gyfer darparu ar gyfer y gwasanaeth colli beichiogrwydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Cam Gweithredu: Graff ar dudalen 8 yr adroddiad i'w ddiwygio i adlewyrchu canran y mathau o staff a fynychodd gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol.

Diweddariad Briffio Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol

7.3.1 Cyflwynodd S Davies yr adroddiad a'r pwyntiau allweddol ynddo. Nododd yr Aelodau fod nifer o feysydd sy'n peri pryder yr oedd y tîm wrthi'n eu datrys.

Diolchodd y Cadeirydd i S Davies am gyflwyno'r adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Nododd y Cadeirydd y rheolaethau a oedd ar waith i sicrhau a chraffu ar gynnydd y Byrddau Iechyd yn y gwaith hwn.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.4 Dangosfwrdd Perfformiad

Cyflwynodd G Robinson yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol a gynhwyswyd ynddo.

Mynegodd L Thomas ei phryder mewn perthynas â'r diweddariad a roddwyd ar berfformiad Canser a'r metrig aros 62 diwrnod yn benodol a gofynnodd am eglurder ynghylch a ellid gwneud unrhyw beth mewn perthynas â chyflwyno'r uned endosgopi symudol yn gynt na mis Ebrill 2022. Dywedodd G Robinson fod hyn yn ymwneud â hanes o faterion caffael a'r gadwyn gyflenwi y byddai'n hapus i'w trafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod. Nododd yr Aelodau fod y broses fonitro well a roddwyd ar waith wedi cael effaith gadarnhaol ar elfen cleifion allanol y llwybr a nododd fod cynlluniau ar waith i leihau amseroedd aros patholeg. Roedd angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael ag elfen Radioleg y llwybr. Nododd yr Aelodau fod sicrwydd wedi'i roi i Lywodraeth Cymru bod y sefyllfa o ran Perfformiad Canser wrthi'n cael sylw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan I Wells ynghylch pam y rhoddwyd sgôr RAG werdd i amseroedd trosglwyddo ambiwlansys ar dudalen 4 yr adroddiad o gofio bod perfformiad yn dal yn eithaf gwael, dywedodd G Robinson bod angen diwygio a chywiro hyn.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod bod rhai meysydd lle'r oedd angen gwella perfformiad a bod cynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa a gofynnodd am ragor o wybodaeth i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol ynghylch sut yr oedd y cynlluniau'n mynd rhagddynt. Croesawodd y Cadeirydd hefyd yr adborth a roddwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y gwelliannau yr oeddent wedi'u gweld yn ystod eu hymweliad â'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Mae'r Sgôr RAG a ddyrennir i Amseroedd Trosglwyddo Ambiwylansys ar dudalen 4 yr adroddiad i'w diwygio a'i chywiro.

Cam Gweithredu: Diweddariadau i'w cyflwyno i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol mewn perthynas â'r cynnydd a wneir yn erbyn y cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd lle'r oedd perfformiad gwael.

8 CYNNAL EIN DYFODOL

8.1 Diweddariad Cyllid Mis 9 2021/2022

Cyflwynodd S May yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan N Milligan ynghylch a fyddai eglurder yn cael ei roi ynghylch faint o ddiwrnodau o absenoldeb y byddai gan staff hawl i'w gario drosodd i 2022/2023, dywedodd H Daniel fod dull gweithredu fesul cam yn cael ei fabwysiadu ynglŷn â'r mater hwn a nododd y broses a oedd wedi'i sefydlu. Nododd yr Aelodau fod y staff yn cael eu hannog i gymryd cymaint o'u gwyliau blyneddol lle bo hynny'n bosibl. Cytunodd H Daniel i adolygu'r cyfathrebu a anfonwyd at staff y tu allan i'r cyfarfod yn dilyn pryder a godwyd gan N Milligan nad oedd yn ei gwneud yn eglur efallai na fydd staff yn gallu cario gwyliau drosodd.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i S May am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Dylid cynnal adolygiad y tu allan i'r cyfarfod o'r neges a oedd wedi'i rheadru i'r staff mewn perthynas â chario gwyliau blyneddol drosodd.

8.2 **CTM 2023 Ein Hiechyd Ein Dyfodol: Nodau a Blaenoriaethau Strategol**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a dywedodd fod angen cymeradwyaeth o'r nodau strategol a nodwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd P Roseblade at y nod Creu Iechyd ac awgrymodd y gallai fod angen esboniad mewn perthynas â'r nod hwn i roi eglurder ynghylch yr hyn yr oedd yn ei olygu i bobl mewn gwirionedd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fodlon cynnal trafodaethau y tu allan i'r cyfarfod ynghylch a oedd angen diwygio teitl y nod hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch pa ymgysylltiad a gynhaliwyd mewn perthynas â phennu a chytuno ar y nodau, dywedodd L Prosser fod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal drwy Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, gyda thrafodaethau hefyd wedi'u cynnal gyda Grwpiau Llywio a Thimau Clinigol. Nododd yr Aelodau fod ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i gynnal hefyd. Ychwanegodd G Dix fod trafodaeth mewn perthynas â'r nodau hefyd wedi'i chynnal yn y Fforwm Arweinyddiaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar lle dangoswyd llawer iawn o egni gan staff ar gyfer y nodau, er y gwnaed rhai sylwadau bod angen gwneud gwerthoedd y Bwrdd Iechyd yn fwy gweladwy.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Nodau a'r Blaenoriaethau.

9. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w adrodd.

10 **Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu adborth gan Aelodau'r Bwrdd ynghylch sut yr oeddent yn teimlo bod y cyfarfod wedi mynd heddiw. Dywedodd F Jenkins ei bod yn teimlo bod y cyfarfod yn mynd yn dda ac ychwanegodd y byddai'n bwerus pe gallai claf neu berthynas gyflwyno'u straeon i'r Bwrdd mewn perthynas â straeon cleifion yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd fod cryn dipyn o wybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd wedi'i harchwilio mewn fforymau eraill a dywedodd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys nodyn yn y papur am y gwaith craffu a wnaed mewn cyfarfod Pwyllgor cyn y Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

11

DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 31 Mawrth am 10am.